



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

**Dysgu ac Addysg Proffesiynol Parhaus ar gyfer
Cytundeb Cynllun Cyllido Gweithwyr Cymdeithasol**

(1) **ENW'R SEFYDLIAD**

a

(2) **GOFAL CYMDEITHASOL CYMRU**

Dyddiad: 2018

Partïon:

- 1) **Enw a cyfeiriad y sefydliad**
- 2) Gofal Cymdeithasol Cymru, Tŷ South Gate, Wood Street, Caerdydd, CF10 1EW

CRONICLIADAU

- A. Rheolir a gweinyddir Cynllun Dysgu ac Addysg Proffesiynol Parhaus i Weithwyr Cymdeithasol (a gaiff ei ddiffinio isod) gan Gofal Cymdeithasol Cymru, ac maent yn darparu cyllid i weithwyr cymdeithasol a gofrestrwyd yng Nghymru trwy eu cyflogwyr, sef Awdurdodau Lleol [a sefydliadau gwirfoddol y trydydd sector] yng Nghymru (y “Derbynwyr”) sy’n dymuno cymryd rhan yn y Cynllun.
- B. Diben y Cynllun yw darparu rhaglenni Dysgu ac Addysg Proffesiynol Parhaus (rhaglenni DAPP) ar gyfer gweithwyr cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru a gyflogir gan y Derbynwyr a hwyluso’r gwaith o ddarparu’r Rhaglenni DAPP gan y Gynghrair (fel y’i diffinnir isod) i’r gweithwyr cymdeithasol hynny.
- C. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi cytuno i ariannu gweithwyr cymdeithasol a gyflogir gan Dderbynwyr sy’n mynychu Rhaglenni DAPP yn unol â thelerau’r Cytundeb hwn.

Cytundeb

1. Dehongliad

1.1 Yn y Cytundeb hwn:

1.1.1 oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall, bydd ystyr y termau canlynol fel a ganlyn:-

Cynghrair	Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Bangor, Prifysgol Glyndŵr a Phrifysgol Abertawe;
Dysgu ac Addysg Proffesiynol Parhaus	dysgu ac addysg proffesiynol parhaus a dehonglir " DAPP " yn unol â hynny;
"Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb"	proses gyhoeddedig ar gyfer cyfyngu ar yr anghydraddoldebau sy'n bodoli yng Nghymru rhwng pobl o gefndiroedd ethnig gwahanol, pobl ag anableddau, dynion a menywod (gan gynnwys pobl drawsrywiol), pobl a chyfeiriadedd rhywiol gwahanol, pobl o grwpiau oedran gwahanol, pobl sy'n arddel crefyddau neu gredoau gwahanol a phobl o grwpiau cymdeithasol ac economaidd gwahanol;
"Parti" neu "Partïon"	rhywun sy'n barti i'r Cytundeb hwn;
"Gweithred Waharddedig"	cyflawni unrhyw drosedd: (i) o dan y Ddeddf Llwgwrwobrwyo; (ii) o dan ddeddfwriaeth creu troseddau mewn perthynas â gweithredoedd twyllodrus; (iii) yn y gyfraith gyffredin mewn perthynas â gweithredoedd twyllodrus

	<p>sy'n ymwneud â'r Cytundeb hwn;</p> <p>twyllo neu geisio twyllo neu gynllwynio i dwyllo Gofal Cymdeithasol Cymru</p>
Rhaglenni	<p>y rhaglenni Dysgu ac Addysg Proffesiynol Parhaus i'w darparu i Weithwyr Cymdeithasol y Derbynwyr gan y Gynghrair yn unol â pharagraff 3.4 y Cynllun ac fel y nodir yn y paragraff hwnnw a dehonglir "Rhaglen" yn unol â hynny;</p>
Ffi'r Rhaglen	<p>y ffi berthnasol a delir neu sy'n ddyledus gan Gofal Cymdeithasol Cymru i'r Gynghrair er mwyn i'r Gweithiwr Cymdeithasol gael lle ar y Rhaglen a mynychu'r Rhaglen</p>
"Cynllun"	<p>Cynllun Cyllido Dysgu ac Addysg Proffesiynol Parhaus ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol, ac mae manylion y cyfryw Gynllun wedi'u cynnwys yn yr Atodiad i'r Cytundeb hwn</p>
"Gweithiwr Cymdeithasol"	<p>gweithiwr cymdeithasol a gyflogir gan y Derbynnnydd sy'n cael lle neu sy'n bwriadu cael lle ar Raglen (neu unrhyw fodiwl, elfen neu rannau ohonynt) yn unol â thelerau'r Cytundeb hwn a dehonglir "Gweithwyr Cymdeithasol" yn unol â hynny</p>
"Ymrwymadau'r Gymraeg"	<p>ymrwymadau'r naill Barti neu'r llall mewn perthynas â defnyddio'r Gymraeg, boed o dan unrhyw Gyfraith, o dan unrhyw</p>

gynllun y Gymraeg a wnaed o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, o dan unrhyw safonau Cymraeg sy'n berthnasol i'r Bwrdd Iechyd o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (waeth a roddwyd rhybudd cydymffurfio i'r naill Barti neu'r llall ai peidio) neu unrhyw ymrwymadau penodol mewn perthynas â defnyddio'r Gymraeg yng nghyswllt cyflawni'r Cytundeb hwn;

- 1.1.2 dehonglir cyfeiriadau at statud neu ddarpariaeth statudol o dro i dro fel statud neu ddarpariaeth sydd wedi'i diwygio, cydgrynhoi, addasu, estyn, ailddeddfu neu ddisodli;
- 1.1.3 bydd geiriau unigol yn gyfystyr â'r lluosog ac i'r gwrthwyneb a chyfeiriad at rywedd yn cyfeirio at y ddau ryw;
- 1.1.4 bydd cyfeiriad at Gymal neu Atodlen yn gyfeirio at gymal neu atodlen (fel sy'n gymwys) o neu i'r Cytundeb hwn;
- 1.1.5 o ran cyfleustra y defnyddir penawdau, ac nid oes bwriad iddynt effeithio ar ddehongliad unrhyw un o ddarpariaethau'r Cytundeb hwn.

2. HYD Y CYTUNDEB A'I DDIRWYN I BEN

- 2.1 Daw'r Cytundeb hwn i rym ar 1 Ebrill 2018 a bydd yn parhau tan iddo ddod i ben yn unol â chymal 11.

3. GWEITHREDU'R CYNLLUN

- 3.1 Mae darpariaethau'r Cynllun wedi'u hymgorffori yn y Cytundeb hwn a byddant yn berthnasol ac eithrio fel y cânt eu hamrywio'n benodol gan y Cytundeb hwn. Os oes anghysondeb neu wrthdaro rhwng telerau'r Cytundeb a'r telerau a nodir yn y Cynllun; telerau'r [Cynllun] fydd drechaf.

4. **CYMHWYSEDD AR GYFER CYLLIDO.**

4.1 Yn ystod oes y Cytundeb rhaid i'r Derbynnnydd bob amser sicrhau bod Gweithwyr Cymdeithasol sy'n dilyn Rhaglenni neu sy'n bwriadu eu dilyn, yn bodloni'r meini prawf cymhwyso a nodir yn Atodlen 1 (*Meini Prawf Cymhwyso*) a'r Cynllun.

4.2 Bydd y Derbynnnydd yn rhoi gwybod i Gofal Cymdeithasol Cymru yn ysgrifenedig cyn gynted ag y bo modd os yw'r Derbynnnydd yn credu'n rhesymol neu wedi dod yn ymwybodol bod

4.2.1 Gweithiwr Cymdeithasol sy'n dilyn neu sy'n bwriadu dilyn Rhaglen ddim bellach yn gymwys i wneud hynny;

4.2.2 Gweithiwr Cymdeithasol yn tynnu'n ôl ar ôl cychwyn ar y Rhaglen neu'n methu â chwblhau'r Rhaglen;

4.2.3 presenoldeb neu gofrestriad Gweithiwr Cymdeithasol ar Raglen wedi cael ei derfynu gan y Gynghrair (oherwydd ymddygiad neu resymau eraill).

5. **TALU FFIOEDD Y RHAGLEN**

5.1 Yn amodol ar Gymal 6, bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn talu Ffi'r Rhaglen i'r Gynghrair yn unol ag Atodlen 2 (*Cyllido'r Rhaglen*), yn amodol bob amser ar argaeledd y cyllid pan fydd y taliadau'n ddyledus. Mae'r Derbynnnydd yn cytuno ac yn derbyn na all Gofal Cymdeithasol Cymru dalu Ffioedd y Rhaglen os nad oes ganddo'r cyllid angenrheidiol.

5.2 Ni thelir Ffi'r Rhaglen oni bai a hyd nes bo Gofal Cymdeithasol Cymru wedi cadarnhau bod y meini prawf cymhwysedd (fel y cyfeiriwyd atynt yng nghymal 4 y Cytundeb hwn) wedi'u bodloni ac y bydd y cyfryw daliad yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwariant priodol i ddarparu'r Rhaglen.

5.3 Ni chaiff cyfanswm Ffi'r Rhaglen ei gynyddu os ceir gorwariant neu gostau ychwanegol a achoswyd gan y Derbynnnydd neu'r Gweithiwr Cymdeithasol.

6. DAL CYLLID YN ÔL, GOHIRIO AC AD-DALU CYLLID

- 6.1 Bwriad Gofal Cymdeithasol Cymru yw y dylid talu Ffi'r Rhaglen yn llawn i'r Gynghrair. Serch hynny, heb leihau effaith remediâu a hawliau eraill Gofal Cymdeithasol Cymru, gall Gofal Cymdeithasol Cymru yn ôl ei ddisgresiwn ohirio taliad o Ffi'r Rhaglen neu ei ddal yn ôl a/neu ofyn i'r Derbynnnydd ad-dalu'r Ffi yn llawn neu'n rhannol os:
- 6.1.1 yw'r Derbynnnydd yn cael taliad dyblyg gan drydydd parti am Raglen;
 - 6.1.2 yw'r Derbynnnydd yn rhoi unrhyw wybodaeth anghywir neu gamarweiniol berthnasol i Gofal Cymdeithasol Cymru;
 - 6.1.3 yw'r Derbynnnydd neu'r Gweithiwr Cymdeithasol yn neu wedi cyflawni Gweithred Waharddedig;
 - 6.1.4 oes unrhyw un o Weithwyr Cymdeithasol y Derbynnnydd wedi (a) ymddwyn yn anonest neu'n esgeulus ar unrhyw adeg gan achosi niwed uniongyrchol neu anuniongyrchol i'r Cynllun (b) cymryd unrhyw gamau sydd ym marn Gofal Cymdeithasol Cymru yn achosi neu'n debygol o achosi niwed i enw da Gofal Cymdeithasol Cymru;
 - 6.1.5 nad yw'r Derbynnnydd yn llwyddo i gydymffurfio â holl delerau ac amodau'r Cytundeb hwn ac nad yw'r Derbynnnydd yn llwyddo i unioni unrhyw fethiant o'r fath cyn pen 30 diwrnod o dderbyn hysbysiad ysgrifenedig yn nodi manylion y methiant;
 - 6.1.6 bydd unrhyw un o'r amgylchiadau a nodir yng nghymal 4.2 y Cytundeb hwn yn codi;
- 6.2 Bydd y Derbynnnydd yn talu unrhyw daliadau sy'n ddyledus i Gofal Cymdeithasol Cymru pan ofynnir amdanynt heb ddiwynnu unrhyw wrthgyfrifiad, gwrth-hawliad, disgownt, lleihad neu fel arall.
- 6.3 Pan gyfyd achos o dan y Cytundeb lle gellir adennill unrhyw swm o arian oddi wrth neu sy'n daladwy gan y Derbynnnydd (gan gynnwys unrhyw swm y dylai'r Derbynnnydd ei dalu i Gofal Cymdeithasol Cymru mewn perthynas â thorri'r

Cytundeb), gall Gofal Cymdeithasol Cymru o'i ben a'i bastwn ei hun ddidynnu'r swm honno o unrhyw swm sy'n ddyledus bryd hynny, neu a ddaw'n ddyledus maes o law i'r Derbynnnydd o dan y Cytundeb neu o dan unrhyw gytundeb neu gontract gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.

7. CYFRIFON A CHOFNODION

7.1 Bydd y Derbynnnydd yn cadw pob adroddiad, gwybodaeth, cofnod, anfoneb, derbynneb a chyfrifon ac unrhyw ddogfennau perthnasol yn ymwneud â Gweithwyr Cymdeithasol sy'n dilyn (neu sy'n bwriadu dilyn) y Rhaglenni yn unol â'r Cytundeb hwn am gyfnod o chwe blynedd o leiaf ar ôl i'r Cytundeb hwn ddod i ben.

7.2 Bydd y Derbynnnydd yn sicrhau bod yr holl wybodaeth a gynhyrchir yn ystod y Cytundeb neu sy'n ymwneud â'r Cytundeb hwn, y Cynllun neu'r Rhaglenni yn cael ei chadw ar gyfer datgeliadau ac yn caniatáu i Gofal Cymdeithasol Cymru archwilio'r cyfryw gofnodion yn ôl y gofyn o dro i dro.

7.3 Bydd y Derbynnnydd yn cydymffurfio ac yn hwyluso cydymffurfiaeth Gofal Cymdeithasol Cymru o ran yr holl ofynion statudol mewn perthynas â gwybodaeth, cyfrifon, arolygu neu archwilio'r cyfrifon, adroddiadau blynyddol a datganiadau blynyddol sy'n berthnasol iddo ef ac i Gofal Cymdeithasol Cymru.

8. MONITRO AC ADRODD

8.1 Bydd y Derbynnnydd yn monitro'n agos y gwaith o ddarparu'r Cynllun a'i lwyddiant gydol oes y Cynllun er mwyn sicrhau bod ei nodau a'i amcanion yn cael eu gwireddu a bod amodau'r Cytundeb yn cael eu dilyn.

8.2 Bydd y Derbynnnydd yn darparu gwybodaeth, esboniadau a dogfennau ar gais rhesymol Gofal Cymdeithasol Cymru er mwyn i Gofal Cymdeithasol Cymru sefydlu bod y Rhaglenni a gyflawnir gan y Gweithwyr Cymdeithasol wedi'u darparu'n llwyddiannus a'u cyflawni'n briodol yn unol â'r Cytundeb hwn.

9. CYHOEDDUSRWYDD

- 9.1 Ni chaiff y Derbynnnydd gyhoeddi unrhyw ddeunydd sy'n cyfeirio at y Cynllun, y Rhaglenni neu Gofal Cymdeithasol Cymru heb yn gyntaf gael cytundeb ysgrifenedig Gofal Cymdeithasol Cymru.
- 9.2 Dylai'r Derbynnnydd gydnabod cefnogaeth Gofal Cymdeithasol Cymru mewn unrhyw ddeunydd sy'n cyfeirio at y Cynllun neu Brosiectau'r Rhaglenni ac mewn unrhyw gyflwyniadau ysgrifenedig neu lafar am y Cynllun neu'r Rhaglenni. Dylai'r cyfryw gydnabyddiaeth (lle bo'n briodol neu yn unol â chais Gofal Cymdeithasol Cymru) gynnwys enw a logo Gofal Cymdeithasol Cymru (neu unrhyw enw neu logo a fabwysiedir gan Gofal Cymdeithasol Cymru yn y dyfodol) gan ddefnyddio'r templedi a ddarperir gan Gofal Cymdeithasol Cymru o dro i dro.

10 HAWLIAU EIDDO DEALLUSOL

- 10.1 Mae Gofal Cymdeithasol Cymru a'r Derbynnnydd yn cytuno y bydd yr holl hawliau, teitl a buddiant o ran neu ynglŷn ag unrhyw wybodaeth, data, adroddiadau, dogfennau, gweithdrefnau, rhagolygon, technoleg, sgiliau ac unrhyw hawliau eiddo deallusol eraill sy'n perthyn i ac sydd ynglŷn â'r Cynllun a'r Rhaglenni yn eiddo i Gofal Cymdeithasol Cymru ac yn parhau felly.

11 TERFYNU

- 11.1 Bydd gan Gofal Cymdeithasol Cymru yr hawl i derfynu'r Cytundeb hwn yn ddi-oed trwy hysbysiad ysgrifenedig i'r Derbynnnydd:
- 11.1.1 os yw'r Derbynnnydd yn torri'n sylweddol neu'n barhaol unrhyw un o ddarpariaethau'r Cytundeb hwn ac yn achos o dorri y gellir ei unioni yn methu â gwneud hynny cyn pen 30 diwrnod o dderbyn hysbysiad ysgrifenedig gan roi manylion llawn yr achos o dorri a'r gofyniad am gamau unioni;
- 11.1.2 os bydd unrhyw un o'r amgylchiadau a nodir yng nghymal 6 yn codi.

- 11.2 Gall Gofal Cymdeithasol Cymru derfynu'r Cytundeb hwn ar ôl rhoi tri mis o rybudd ysgrifenedig i'r Derbynnnydd pe bai angen gwneud hynny oherwydd cyfyngiadau ariannol, pe bai Llywodraeth Cymru'n tynnu'r cyllid yn ôl neu am unrhyw reswm arall.
- 11.3 Nid yw'r hawliau i derfynu'r Cytundeb hwn yn sgil y cymal hwn yn lleihau effaith unrhyw hawl arall neu rwymedigaeth y naill barti na'r llall mewn perthynas â'r achos perthnasol o dorri (os oes un) nac unrhyw dorcytundeb arall.
- 11.4 Ar ôl terfynu'r Cytundeb hwn am unrhyw reswm, a ddarperir fel arall yn y Cytundeb hwn, sy'n destun unrhyw hawliau neu rwymedigaethau sydd wedi cronni cyn y terfynu, ni fydd gan y naill barti na'r llall unrhyw rwymedigaeth bellach i'w gilydd o dan y Cytundeb hwn.

12 RHYDDID GWYBODAETH

- 12.1 Mae'r Derbynnnydd yn cydnabod bod Gofal Cymdeithasol Cymru yn ddarostyngedig i ofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a bydd yn cynorthwyo a chydweithio â Gofal Cymdeithasol Cymru (ar gost y Derbynnnydd) i alluogi Gofal Cymdeithasol Cymru i gydymffurfio â'r gofynion datgelu gwybodaeth hyn.
- 12.2 Rhaid i'r Derbynnnydd a rhaid iddo beri bod ei Weithwyr Cymdeithasol yn:
- 12.2.1 trosglwyddo unrhyw gais am wybodaeth i Gofal Cymdeithasol Cymru cyn gynted ag y bo modd ar ôl ei dderbyn a chyn pen dau Ddiwrnod Gwaith o dderbyn y cais am wybodaeth;
- 12.2.2 darparu copi i Gofal Cymdeithasol Cymru o'r holl wybodaeth sydd ar gael ganddo neu sydd o fewn ei allu yn y fformat y mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn gofyn amdano cyn pen pum diwrnod gwaith (neu'r cyfryw gyfnod y mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn ei bennu) o dderbyn cais gan Gofal Cymdeithasol Cymru am y wybodaeth honno;

- 12.2.3 darparu pob cymorth angenrheidiol y mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn gofyn yn rhesymol amdano er mwyn i Gofal Cymdeithasol Cymru allu ymateb i gais am wybodaeth o fewn yr amser cydymffurfio a bennir yn adran 10 Deddf Rhyddid Gwybodaeth neu reoliad 5 Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.
- 12.3 Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn gyfrifol am bennu yn ôl ei ddisgresiwn absoliwt a yw'r wybodaeth:
- 12.3.1 wedi'i heithrio rhag datgeliad yn unol â darpariaethau Deddf Rhyddid Gwybodaeth neu Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004;
- 12.3.2 i'w datgelu mewn ymateb i gais am wybodaeth, ac nad yw'r Derbynnnydd ar unrhyw gyfrif i ymateb yn uniongyrchol i gais am wybodaeth oni bai yr awdurdodwyd ef yn benodol i wneud hynny gan Gofal Cymdeithasol Cymru.
- 12.4 Nid yw'r Derbynnnydd ar unrhyw gyfrif i ymateb yn uniongyrchol i gais am wybodaeth oni bai yr awdurdodwyd ef yn benodol i wneud hynny gan Gofal Cymdeithasol Cymru.
- 12.5 Mae'r Derbynnnydd yn cydnabod y gall Gofal Cymdeithasol Cymru ddatgelu gwybodaeth:
- 12.5.1 heb ymgynghori â'r Derbynnnydd; neu
- 12.5.2 ar ôl ymgynghori â'r Derbynnnydd ac ar ôl ystyried ei safbwyntiau, cyhyd ag y bo Gofal Cymdeithasol Cymru bob amser, pan fo cymal 12.5.2 yn gymwys, yn cymryd camau rhesymol, lle bo'n briodol, i roi rhybudd ymlaen llaw i'r Derbynnnydd, neu os na wneir hynny, i dynnu sylw'r Derbynnnydd at y datgeliad ar ôl gwneud datgeliad o'r fath.

13 DIOGELU DATA

- 13.1 Bydd y Derbynnnydd yn cydymffurfio (ac yn peri bod unrhyw un o'i staff perthnasol sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau o dan y Cytundeb yn cydymffurfio) ag unrhyw ofynion hysbysu o dan Rheoliad Diogelu Data

Cyffredinol 2018 a bydd y ddau Barti yn ufuddhau'n briodol i'w holl rwymedigaethau o dan y Rheoliad, sy'n codi yn sgil y Cytundeb hwn.

13.2 Heb leihau effaith cymal 13.1:

13.2.1 Ac eithrio fel y cytunwyd i'r gwrthwyneb, dim ond at ddibenion sy'n gysylltiedig â gweinyddu'r Cynllun ac ar ffurf ddiennw at ddibenion archwiliadau a dadansoddiadau ystadegol y bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn defnyddio'r data Personol a ddarparwyd mewn cysylltiad â'r Cynllun a/neu Raglenni;

13.2.2 Cyfrifoldeb y Derbynnnydd yw hysbysu Gweithwyr Cymdeithasol y bydd eu data personol yn cael eu trosglwyddo i Gofal Cymdeithasol Cymru a'r Gynghrair.

14 DEDDF CYDRADDOLDEB

14.1 Mae'r Derbynnnydd yn cydnabod ac yn cytuno bod Gofal Cymdeithasol Cymru yn ddarostyngedig i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus fel y nodir yn adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ("Deddf 2010").

14.2 Rhaid i'r Derbynnnydd, mewn perthynas â chyflawni'r Cytundeb hwn, gydymffurfio ag adran 149 o Ddeddf 2010 ac mae'n gwarantu a chytuno i roi sylw dyledus wrth gyflawni'r Cytundeb i:

14.2.1 ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad sydd wedi'i wahardd o dan Ddeddf 2010;

14.2.2 hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol (fel y'u diffinnir yn Neddf 2010) ac unrhyw bobl nad ydynt yn eu rhannu;

14.2.3 meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol (fel y'u diffinnir yn Neddf 2010) a phobl nad ydynt yn eu rhannu.

14.3 Heb leihau effaith Cymal 14.2, bydd y Derbynnnydd:

14.3.1 yn cydymffurfio â chyfarwyddiadau a chanllawiau Gofal Cymdeithasol Cymru ac unrhyw bolisiau a chodau ymarfer a gyhoeddwyd ganddo o dro i dro mewn perthynas â Deddf 2010;

14.3.2 yn rhoi gwybod a pharhau i hysbysu Gofal Cymdeithasol Cymru (gyda manylion ategol llawn os gofynnir amdanynt) o'r holl gwynion ac ymchwiliadau mewn perthynas â Deddf 2010.

14.4 Bydd y Derbynnnydd yn darparu unrhyw wybodaeth i Gofal Cymdeithasol Cymru y gall Gofal Cymdeithasol Cymru yn rhesymol ofyn amdani er mwyn cyflawni ei rwymedigaethau o dan y Gyfraith.

14.5 Bydd y Partïon fel ei gilydd yn destun Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn unol â'r gyfraith.

15 NEILLTUO

15.1 Rhaid i'r Derbynnnydd gael caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Gofal Cymdeithasol Cymru cyn y gall drosglwyddo, neilltuo, is-gontractio neu roi mantais a/neu faich y Cytundeb hwn mewn unrhyw ffordd arall i unrhyw drydydd parti ac eithrio fel y cydsyniwyd fel rhan o'r Cynllun.

16 ILDIO HAWL

16.1 Ni ellir dehongli unrhyw fethiant neu oedi gan y naill barti neu'r llall i arfer unrhyw hawl neu rwymedigaeth o dan y Cytundeb hwn fel hawlildiad o unrhyw hawl neu rwymedigaeth.

17 HYSBYSIADAU

17.1 Bydd pob hysbysiad a chyfathrebu mewn perthynas â'r Cytundeb hwn yn ysgrifenedig a gellir barnu iddo fod wedi'i roi yn briodol os cafodd ei ddanfôn yn bersonol, ei anfon ar e-bost neu drwy'r post (dosbarth cyntaf wedi'i dalu ymlaen llaw) i gyfeiriad y parti perthnasol, fel y cyfeiriwyd ato uchod neu yr hysbyswyd yn ysgrifenedig fel arall. Os caiff ei ddanfôn yn bersonol neu os caiff ei anfon ar e-bost, bernir bod pob cyfathrebiad o'r fath wedi'i roi pan gaiff ei dderbyn (ac eithrio pan gânt eu derbyn ar ddiwrnod nad yw'n ddiwrnod gwaith neu ar ôl

5.00pm ac y bernir eu bod wedi'u derbyn ar y diwrnod gwaith canlynol) ac os cânt eu hanfon yn y post bernir iddynt fod wedi'u derbyn ar yr ail ddiwrnod gwaith yn dilyn eu rhoi yn y post.

18 DATRYS ANGHYDFOD

18.1 Os oes unrhyw gŵyn neu anghydfod (nad yw'n ymwneud â hawl Gofal Cymdeithasol Cymru i ddal cyllid yn ôl neu derfynu Cytundeb) yn codi rhwng y partïon i'r Cytundeb hwn mewn perthynas â'r Cytundeb hwn, dylid cyfeirio'r mater yn gyntaf at unigolyn a gaiff ei enwebu gan Gofal Cymdeithasol Cymru o dro i dro i'w ddatrys.

18.2 Os pery'r gŵyn neu'r anghydfod heb ei datrys o fewn 14 diwrnod i'r mater gael ei gyfeirio at yr unigolyn a enwebwyd, gall y naill barti neu'r llall gyfeirio'r mater at [Brif Weithredwr] Gofal Cymdeithasol Cymru a [Chadeirydd NEU Brif Weithredwr NEU Gyfarwyddwr] y Derbynnnydd gyda chyfarwyddyd yn nodi y dylid ceisio datrys yr anghydfod drwy gytundeb cyn pen 28 diwrnod, neu gyfnod arall sy'n gytûn gan Gofal Cymdeithasol Cymru a'r Derbynnnydd.

18.3 Os na cheir cytundeb fel y nodir yng nghymal 18.2, gall y partïon geisio datrys y mater drwy ddulliau cyfryngu o dan Weithdrefn Cyfryngu Model CEDR (neu unrhyw fodel arall ar gyfer datrys anghydfod sy'n dderbyniol i'r ddau barti). Oni cheir penderfyniad gwahanol, bydd y ddau barti yn rhannu costau a threuliau'r broses gyfryngu'n gyfartal.

19 DIM PARTNERIAETH NAC ASIANTAETH

19.1 Ni ddylai'r Cytundeb hwn greu unrhyw bartneriaeth neu fenter ar y cyd rhwng Gofal Cymdeithasol Cymru a'r Derbynnnydd, nac unrhyw berthynas rhwng pennaeth ac asiant, nac awdurdodi unrhyw barti i wneud ymrwymadau dros neu ar ran parti arall.

20 DEDDF CONTRACTAU (HAWLIAU TRYDYDD PARTI) 1999

20.1 Nid yw'r Cytundeb hwn yn rhoi ac ni fwriedir iddo roi unrhyw fantais gytundebol ar unrhyw berson yn unol â thelerau Deddf Contractau (Hawliau Trydydd Parti) 1999.

21 DATGYSYLLTIAD

21.1 Os ceir bod unrhyw un o delerau neu ddarpariaethau'r Cytundeb hwn yn anghyfreithlon neu'n anorfodadwy, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, o dan unrhyw ddeddfiadau neu reolaeth cyfraith, bernir na fydd y cyfryw delerau neu ddarpariaethau i'r graddau hynny yn rhan o'r Cytundeb hwn bellach ond ni effeithir ar ddilysrwydd a gorfodadwyedd gweddill y Cytundeb.

21.2 Dehonglir pob mynediad i'r Cytundeb hwn yn fynediad unigol ac os ceir bod un neu fwy o'r ymrwymadau yn y Cytundeb hwn yn anorfodadwy neu'n gyfyngiad afresymol ar fasnach, bydd gweddill yr ymrwymadau'n parhau'n orfodol i'r Partïon.

22 YMRWYMIADAU'R GYMRAEG

22.1 Mae'r partïon yn cytuno na fydd cwblhau eu hawliau a'u hymrwymadau o dan y Cytundeb Darparwr Gwasanaeth hwn yn cael ei wneud yn y fath fodd ag y bydd yn peri eu bod yn torri eu cyfryw ymrwymadau mewn perthynas â'r Gymraeg gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'w hymrwymadau o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 neu Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

23 CYFRAITH LLYWODRAETHU

23.1 Llywodraethir a dehonglir y Cytundeb hwn yn unol â chyfraith Cymru a Lloegr fel y'i gweithredir yng Nghymru.

23.2 Cytunodd y naill barti a'r llall yn ddi-droi'n-ôl y bydd gan Lysoedd Cymru a Lloegr awdurdodaeth lwyr mewn perthynas ag unrhyw anghydfod o ran hawliau sy'n codi o'r cyfryw gytundeb.

24 Y CYTUNDEB CYFAN

24.1 Y Cytundeb ynghyd â'r Cynllun yw dealltwriaeth a Chytundeb cyfan y partïon ac mae'n disodli unrhyw Gytundeb blaenorol rhwng y partïon sy'n ymwneud â phynciau'r Cytundeb hwn.

TYSTIED hyn oll yr ymrwymwyd i'r Cytundeb hwn a ysgrifennwyd ar y diwrnod a'r flwyddyn a enwyd eisoes.

Llofnodwyd gan _____

Enw

Cyfarwyddwr neu
Prif Weithredwr

Llofnodwyd gan _____

Joanne Oak
Cyfarwyddwr
Gwasanaethau
Corfforaethol ac
Adnoddau
Gofal Cymdeithasol
Cymru

ATODLEN 1

MEINI PRAWF CYMHWYSEDD

1. **Cymhwysedd ac Amodau'r Cynllun**
- 1.1 **Rhaid** i weithwyr cymdeithasol a gyllidir gan Gofal Cymdeithasol Cymru a gweithwyr cymdeithasol a gyllidir gan gyflogwyr sy'n dymuno dilyn unrhyw elfennau o'r Rhaglenni DAPP fod wedi (i) cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru a (ii) chael eu cyflogi yng Nghymru.
- 1.2 Mae gweithwyr cymdeithasol a gymhwysodd yn (neu ar ôl) 2012 ond yn gymwys i ddilyn Rhaglen Ymarferydd Profiadol (EPSW) ar ôl cwblhau Rhaglen Sefydlu'r Fframwaith DAPP ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol newydd Gymhwyso.
- 1.3 Gall gweithwyr cymdeithasol ddim ond dilyn Rhaglen DAPP neu fodiwl/au sy'n berthnasol i'w rôl gyfredol, cyhyd ag y bo'u cyflogwyr wedi pennu unrhyw eithriadau a all fod yn gysylltiedig â'r amod hwn o dro i dro.
- 1.4 Gall gweithwyr cymdeithasol ond dilyn:-
 - 1.4.1 yr os ydynt yn cyflawni rôl Ymarferydd Profiadol neu os yw eu cyflogwr yn gallu rhoi digon o gyfleoedd iddynt ddilyn elfennau o'r rôl Ymarferydd Profiadol sy'n dystiolaeth ddigonol ar gyfer gofynion y Rhaglen a'r deilliannau dysgu;
 - 1.4.2 y Rhaglen Uwch Ymarferydd (SPSW) os ydynt yn cyflawni rôl Uwch Ymarferydd ar hyn o bryd neu os yw eu cyflogwr yn gallu rhoi digon o gyfleoedd iddynt ddilyn elfennau o'r rôl Uwch Ymarferydd sy'n dystiolaeth ddigonol ar gyfer gofynion y Rhaglen a'r deilliannau dysgu;
 - 1.4.3 y Rhaglen Gweithiwr Cymdeithasol Ymgynghorol (CSWP) os yw eu cyflogwr yn gallu rhoi digon o gyfleoedd iddynt ddilyn elfennau o'r rôl Gweithiwr Cymdeithasol Ymgynghorol sy'n dystiolaeth ddigonol ar gyfer gofynion y Rhaglen a'r deilliannau dysgu.
- 1.5 Gall gweithwyr cymdeithasol annibynnol (hunangyflogedig) ond cael mynediad i'r llefydd Ychwanegol ar y Rhaglenni DAPP.
- 1.6 Rhaid i gyflogwyr roi digon o gyfleoedd ymarfer ac adnoddau i weithwyr cymdeithasol sy'n cymryd rhan mewn Rhaglen (neu unrhyw ran o Raglen) i fod yn dystiolaeth ar gyfer gofynion perthnasol y Rhaglen a'r deilliannau dysgu.
- 1.7 **Rhaid** i gyflogwyr ymrwymo i gytundeb gyda Gofal Cymdeithasol Cymru er mwyn cael lle ar y Rhaglen DAPP i'w gweithwyr cyflogedig ac ar eu rhan.

ATODLEN 2

TALU'R CYLLID

Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn ryddhau'r cyllid ar gyfer y rhaglenni DAPP i'r Gynghrair mewn dau randaliad.

- Bydd y taliad cyntaf yn cael ei ryddhau ym mis Hydref 2018.
- Bydd yr ail daliad yn cael ei ryddhau ym mis Mawrth 2019.